# Heddwch

Newyddion Gweithredu Mehefin 94

## Cyfarfod Blynyddol

### CND Cymru - Aberystwyth 18fed Mehefin 94

Trwy garedigrwydd CND Aberystwyth, yn Undeb y Myfyrwyr ar Gampws Llanbadarn. Bydd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Janet Bloomfield, Cadeirydd CND Prydain. Beth am ymuno â ni yno? Bydd yna gwmni da, cynnwys i godi'ch calon, a bwyd blasus tu hwnt. Uchafbwynt y cyfarfod fydd noswaith gymdeithasol gyda miwsig yn Nhafarn y Coopers ar gornel Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth. Os ydych chi eisiau llety, cysylltwch ag Olwen Davies (0970)611994 neu Sonia Hancock (0970)615168.

Cynigion at y cyfarfod erbyn 30ain Mai i, a rhagor o wybodaeth gan, yr Ysgrifennydd Cyffredinol.

### Ein "Hatalrym Niwclear"

Ar 30ain Mai bydd pob taflegryn niwclear strategol dan awdurdod Boris Ieltsyn a John Major yn cael ei ddat-anelu. Mae Gweinidog Gwladwriaethol y Lluoedd Arfog wedi dweud wrthym fod hyn yn golygu:

"na fydd y cyfrifiaduron tywys ar fwrdd ein taflegrau Polaris, ac wedyn Trident, fel rheol yn cynnwys gwybodaeth anelu o hyn ymlaen; a bydd y prif orchmynion a gedwir wrth law i'w bwydo i mewn i'r cyfrifiaduron yn anelu'r taflegrau at dargedi yng nghanol y môr."

Pwysleisiodd yr un gweinidog ei bod yn bwysig inni gynnal ein hatalrym niwclear ar lefel isel penodedig, er mwyn sicrhau ein diogelwch ym mhob amgylchiad. Ond prin y gall y rhai sy'n byw dan fygwth cynyddol lewcemia o gwmpas y ffatrioedd bomiau, y defnyddiau niwclear sy'n cael eu cludo ar hyd ffyrdd Prydain, a'r perygl o ddamweiniau a rhyfel niwclear, deimlo bod eu diogelwch yn sicr.

**gweithredu: Ysgrifennwch at eich AS - gofynnwch iddi/iddo am fanylion am Trident a'r atalrym niwclear, a'r rhesymau sy'n eu cyfiawnhau. Daliwch ati i ofyn cwestiynau, er mor sarhaus-nawddogol yr ymddengys yr atebion a gewch chi. Ac os gwelwch yn dda, rhowch wybod inni am yr atebion hynny.**

### Cymorth Gogledd Cymru i Fenywod Cyn-Iwgoslafia

Mae Cymorth Menywod Dros Heddwch yn gyrru lori'n rheolaidd i Gyn-Iwgoslafia. Eu nod yw lleddfu angen trwy ddarparu cymorth o fathau a ystyrir yn addas gan y ffoaduriaid eu hunain. Mae rhoddion derbyniol yn amrywio o bapur swyddfa i biniau ar gyfer clytiau baban, ac arian wrth gwrs. Os gallwch chi helpu, cysylltwch â Janet Tyrell (0824)750738.

### Achos Cyfiawn - Gwyl Goffa Tsiernobyl 26ain Ebrill

Ymunodd sawl aelod o CND Cymru â gwrthdystwyr heddwch a gwrth-niwclear eraill ym Mhrif Swyddfa cwmni Nuclear Electric yng Nghaerloyw, i gloi gweithwyr allan a thynnu sylw at y rhesymwaith sy'n caniatáu i'n bywydau ni ac i'r ddaear ei hun gael eu defnyddio i genhedlu elw cyflym. Arestiwyd Is-Gadeirydd CND Cymru Rod Stallard, a bydd yn sefyll o flaen ei well ar 2il Mehefin. Trefnwyd gweithredoedd eraill ar draws gwledydd Prydain, gan ddenu cryn dipyn o sylw gan y cyfryngau er gwaethaf Etholiadau De Affrica.

**gweithredu: Os ydych chi am gymryd rhan mewn gweithredoedd uniongyrchol di-drais, cysylltwch â Jill Stallard.**

## Heddwch

Mae CND Cymru wedi bod yn brysur dros ben yn y misoedd diwethaf. Dyma ddiweddariad byr ar rai o'r achosion y buom yn gweithio arnynt. Fe gyhoeddir Heddwch cyflawn ar ddiwedd mis Gorffennaf.

## THORP - Tsiernobyl yng ngardd gefn Cymru

Ar 29ain Mawrth cafwyd damwain gemegol yn Ffatri Ail-Brosesu Ocsid Thermol Sellafield, Cumbria. Lladdwyd deg o forwyr mewn ffrwydrad ar long danfor Ffrengig ar 30ain Mawrth. Fe'n sicrhawyd ar y ddau achlysur nad oedd ymbelydredd wedi dianc. Am faint y daliwn ni i fod mor lwcus? Rhaid inni rybuddio'r cyhoedd am yr holl ffactorau sy'n troi Prydain yr Oes Niwclear yn ddamwain sy'n aros i ddigwydd.\

## Plant Tsiernobyl

Yn ddiweddar cyfarchodd CND Abertawe grwp o blant ysgol Gwyddelig a oedd newydd groesi Môr Iwerddon ar fferi Corc, gan farchogaeth yr holl ffordd ar feiciau ymarfer corff er mwyn codi arian at gronfa "Plant Tsiernobyl". Mae aelodau CND Abertawe hwythau wedi codi £100 i'r un achos. Yn yr ardaloedd sydd wedi dioddef ôl-effeithiau gwaethaf damwain Tsiernobyl ym 1986, mae genedigaethau wedi syrthio 50%. Mae mamau yno'n ofni cael plant, gan fod babanod yn aml yn cael eu geni heb organau mewnol; mae lewcemia cydenedigol a chancrau a chlefydau eraill yn beth cyffredin. Mae sustemau imwnedd llawer o'r plant a oroesodd y trychineb wedi eu niweidio'n arw. Dim ond 1% o'r tir yno sydd heb ei lygru bellach. Dychmygwch sefyllfa lle na allech chi dyfu eich llysiau eich hun, na hyd yn oed ymddiried yn y rhai a werthir ichi.

**gweithredu: Os oes gennych chi ddiddordeb ym Mhrosiect Plant Tsiernobyl, sy'n anfon adnoddau meddygol hanfodol a dillad at ysbytai, cartrefi plant amddifad a chymunedau yn Wcrain a Gweriniaeth Bielarws, ac yn dod â phlant draw ar wyliau i Iwerddon, cysylltwch â Jill Stallard.**

# Trawsfynydd

Mae Rheolwr yr Atomfa wedi cyhoeddi rhai manylion am natur yr allyriannau tebygol a ddaw o'r ddau losgydd (sydd heb eu hawdurdodi hyd yn hyn gan Arolygwyr y Canolfannau Niwclear) sy'n cael eu sefydlu i losgi gwastraff ymbelydrol. Deunydd darllen go frawychus:

Llosgydd Olew:

| | |
|---|---|
| Sylffwr 35 | - yn achosi cancr y croen |
| Tritiwm | - yn achosi cancr y prostad |
| Cobalt 60 | - yn achosi cancr yr afu |

Llosgydd Gwastraff Solet (yn llosgi deunydd llai ymbelydrol):

| | |
|---|---|
| Tritiwm | - gweler uchod |
| Strontiwm 90 | - yn achosi cancr yr esgyrn |
| Caesiwm 137 | - yn achosi cancr yr wygell |
| Cobalt 60 | - gweler uchod |
| Haearn 55 | |

Bydd yr elfennau hyn yn llithro eu ffordd i mewn i bob creadur byw - a fedrwn ni dderbyn hyn?

gweithredu: Anfonwch y cerdyn post amgaeëdig (neu ysgrifennwch eich llythyr eich hun) i gladdu Michael Heseltine dan fynydd o wrthwynebiadau i'r erchyllterau hyn. Cysylltwch â'ch cynghorydd lleol a/neu'ch Adran Gynllunio Argyfwng, a gofynnwch iddynt sut yr ydych chi a'ch teulu yn cael eich amddiffyn rhag y fath allyriannau marwol.

## Datgomisiynu Trawsfynydd

Mae Nuclear Electric yn cynnal yr hyn a alwant yn Ymgynghoriad Cyhoeddus i drigolion ardal fach o gwmpas yr atomfa. Mae'r modd yr eir ati i wneud y gwaith hynod beryglus o ddatgomisiynu'r orsaf bŵer yn mynd i effeithio arnom i gyd, yng Nghymru a thu draw i'n ffiniau yn ogystal. Bydd Nuclear Electric yn chwilio am y dull rhataf, sydd ddim o anghenraid y dull diogelaf. Mae'r llyn yn llawn llygredd o hyd, er ei fod yn dal i gael ei hysbysebu fel atyniad twristaidd.

**gweithredu: Ceisiwch gael gwybod gan eich Cyngor Sir neu Ddosbarth a ydynt yn ymwybodol fod datgomisiynu'n effeithio arnom i gyd, ac awgrymwch eu bod yn galw ar arbenigwyr annibynnol i'n hysbysu, gan nad yw'n sicr y gallwn ni ymddiried yn llwyr yn Nuclear Electric.**

Mae mwy o wybodaeth ar gael gan Rod Stallard: (05505)260 neu CADNO: (0766)87408

## Wylfa - Ar Ymyl Trychineb

Fe erlyniodd Arolygwyr Llygredd Ei Mawrhydi gwmni Nuclear Electric yn sgil allyriad enfawr o nwy ymbelydrol o atomfa'r Wylfa rhwng 31ain Gorffennaf a'r 2il o Awst 1993. Fe blediodd Nuclear Electric yn euog. a chael ei ddedfrydu i dalu dirwy o £34,000 am ollwng ymbelydredd yn ddamweiniol i'r amgylchedd. Digwyddodd y ddamwain wrth i grafanc-godi, a ddefnyddir i osod a mudo gwiail tanwydd, dorri'n rhydd a syrthio i mewn i'r adweithydd. Pe bai'r grafanc wedi taro'r elfennau tanwydd, fe allai nwy ymbelydrol fod wedi dianc yn afreoladwy o'r atomfa, a byddai'r difrod i'r gwiail tanwydd wedi arwain at sefyllfa lawer mwy difrifol: llwyrymdoddiad niwclear, ac argyfwng ar raddfa anferth yn effeithio ar ardaloedd eang yng Nghymru, gweddill Prydain ac Iwerddon. Dim ond pum niwrnod yn ddiweddarach y cyfaddefodd Nuclear Electric fod nwy ymbelydrol wedi ei ollwng. Fel y datganodd PAWB (Pobl yn erbyn Wylfa B): "Dengys hyn i ba raddau y gall y cyhoedd ymddiried yn Nuclear Electric os aiff rhywbeth o'i le."

**gweithredu: Defnyddiwch y wybodaeth hon i ysgrifennu at eich AS. Cysylltwch â PAWB, Rhiwallt, Ponc y Fron, Llangefni, Ynys Môn, Gwynedd**

## CND Cymru a Chi

Os oes gennych chi eitemau i Heddwch, neu os ydych chi am roi help llaw gyda'r gwaith golygu, byddai Jill Stallard wrth ei bodd i glywed oddi wrthych chi! Fel y gwelwch, mae'na ddigonedd o ffyrdd ichi ymgyrchu yn eich cartref eich hun, neu fe allech chi ddod i Gyfarfod y Cyngor. Cynhelir ein Cyngor nesaf ar 17eg Medi yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr, Stryd y Deml, Llandrindod, Powys.

# I'ch Dyddiadur

**30 Mai-3 Meh. Eisteddfod yr Urdd, Dolgellau**

**30 Gor-6 Awst Eisteddfod Genedlaethol, Castell Nedd**

Angen siaradwyr Cymraeg i helpu ar stondin CND Cymru (mynediad am ddim). Cysylltwch â Jan Henderson (0792)830330

**4 Meh., 1-5 pm  Sbot ddy Bom, Gwrthdystiad yn Burghfield, Reading,**

Y ffatri bomiau gyfrinachol a ddiflanodd o'r map! Dyma'r pwynt terfynol lle y mae holl arfbennau niwclear Prydain yn cael eu rhoi at ei gilydd. Dewch i'n helpu i gyhoeddi'r neges fod rhaid rhoi terfyn ar gynhyrchu arfau niwclear, a bod rhaid dechrau eu datwneud.

Bws i Burghfield o Dde Cymru:
Gorsaf Bysiau Penybont-ar-O.: 9.00am
Bwciwch trwy Barbara Jones (0656)662777
Caerdydd, grisiau'r Amgueddfa Gen.: 9.30am. Bwciwch yn Siop Heddwch (0222)489260
Casnewydd, gorffwysfan ger Gorsaf y Bysiau: 9.50am. Bwciwch trwy Hilary Kinaris (0633)279018 Tocynnau: £5 a £2.50

**18 Meh. CYFARFOD BLYNYDDOL CND CYMRU**

**18-20 Meh Caewn Sellafield i Alban Hefin**

Amgaewn Sellafield â mur callineb. Gwarchae torfol heddychlon. Galwch (0706)371387 am fanylion

**24-26 Meh. Gŵyl Glastonbury -**

Gwirfoddolwch i helpu - (mynediad am ddim), a daw rhôd i CND o'r Wyl. Dyddiad cau: 4ydd Mehefin. (Galwch Jill Stallard)

**25 Meh.-3 Gor.  Gŵyl Heddwch Ryngwladol Manceinion**

Siaradwyr, gweithdai, raliau, theatr stryd, digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol. Manylion gan: Linda Walker (061)234 3325 neu 3222

**Menywod ar y Ffordd i Heddwch:**
**13/14 Awst Maes Hyfforddi Milwrol Pont Senni**
**15/16 Awst AWE Llanishen, Caerdydd - ffatri bomiau niwclear**
Bydd y daith heddwch hon yn canolbwyntio ar y cysylltiadau sydd rhwng hiliaeth, militariaeth a chylch dieflig tragwyddol rhyfel. Croeso i bob menyw. Galwch Siân (0222)396563 am fanylion.

**Haf 1994 Taflenni ar y traeth**

Dosbarthu taflenni mewn gwahanol lefydd ar hyd glannau môr Cymru i roi cyhoeddusrwydd i beryglon THORP ac ymbelydredd ym Môr Iwerddon. Teimlo fel pnawn ar y traeth? Cysylltwch â ni!

**Cysylltiadau**

Cyhoeddir rhestr gyflawn o gysylltiadau yn y rhifyn nesaf o Heddwch. Os oes arnoch chi eisiau unrhyw gymorth neu wybodaeth, galwch Jill Stallard (05505)260, neu ysgrifennwch at:

CND Cymru, Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ.

# DIARY DATES

**May 30-June 4 Urdd Eisteddfod, Dolgellau**
**Jul 30-Aug 6 National Eisteddfod, Neath**
Welsh speakers needed to help on CND Cymru stalls (free entry).contact Jan Henderson:(0792)830330

**June 4 1-5pm  Spot the Bomb, Demonstration at Burghfield, near Reading.**
This secret bomb factory has been removed from the map! It is the final assembly point for all Britain's nuclear warheads. Come and help to get the message across that nuclear weapon production must stop, and dismantling must start.

Go by Bus From South Wales :

**Bridgend** Bus Station :9.00am (book with Barbara Jones (0656)662777)
**Cardiff**, National Museum steps: 9.30am (book with The Peace Shop (0222)489260
**Newport** - lay-by near Bus Station :9.50am (book with Hilary Kinaris (0633)279018 Tickets : £5 and £2.50

**June 18 CND CYMRU ANNUAL MEETING**
See story. See you there!

**June 18-20 Shut Sellafield for Solstice**
Surround Sellafield with sanity. Mass Blockade. Phone(0706)371387 for more details

**June 24-26 Glastonbury Festival**
Volunteers needed !If you can give your time to help out, CND gets a donation, you get into the festival free. Closing date 4th June. (phone Jill Stallard)

**Jun 25-Jul 3 Manchester International Peace Festival**
with speakers, workshops, rallies, street theatre, cultural and social events more information: Linda Walker (061)234 3325 or 3222

**Women on the Road For Peace:**
**August 13/14 Sennybridge Military Training Area**
**August 15/16 AWE Llanishen Nuclear Bomb Factory Cardiff.**
This peace tour will focus on the links between racism, militarism and the entire cycle of war. All women are welcome. Please 'phone Sian (0222)396563 for more details.

**Summer 1994**
Leafleting at various places around the Welsh coast to highlight the dangers of THORP and a radioactive Irish Sea. Fancy an afternoon beside the sea? Get in touch!

**Contacts**
A full contacts list will be included in the next edition of Heddwch. If you require any help or information, please contact Jill Stallard (General Secretary) (05505)260 , or write to:

CND Cymru, The Peace Shop, 56 Mackintosh Place, Cardiff CF2 4RQ.